**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Aflonyddu ar sail Anabledd yng Nghymru**

---

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar aflonyddu ar sail anabledd yng Nghymru. Rwy'n credu cant y cant bod digwyddiadau troseddau casineb, trais ac aflonyddu ar sail anabledd yn syfrdanol ac yn annerbyniol. Mae gennym oll ddyletswydd i ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac i sicrhau bod pobl anabl a'r rheini sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yn gallu byw bywyd heb ofn.

Er bod y gwaith presennol wedi cael ei fwrw ymlaen drwy gyfrwng ein Strategaeth Cydlyniant Cymunedol, rwyf eisiau sicrhau bod cyfeiriad strategol cadarnach i fynd i'r afael â throseddau casineb yn cael ei wneud yn flaenoriaeth ar draws portffolios y Llywodraeth a gydag ein partneriaid ledled Cymru. Mae pwysigrwydd y mater hwn yn amlwg yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn y meysydd posibl sy'n dod i'r amlwg ar gyfer amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru.

Cefnogaf argymhellion y pwyllgor i fwrw ymlaen fframwaith ar gyfer gweithredu ledled Cymru. Rwyf eisiau gweld fframwaith cyffredinol i fynd i'r afael â throseddau casineb o bob math yn cael ei ategu gan ymgynghori cadarn a gyda thystiolaeth glir yn seiliedig ar ddata a gwaith ymchwil cyfredol. Bydd y dull gweithredu hwn wedyn yn cael ei gefnogi gan gynlluniau gweithredu gweladwy y gellir eu cyflawni drwy weithio gydag ein rhanddeiliaid i sefydlu grwpiau sy'n cael eu symbylu gan weithredu ar draws yr elfennau troseddau casineb. Bydd y rhain yn pwyso a mesur yr arferion presennol ac yn ceisio datblygu rhaglenni gwaith newydd i fwrw'r dulliau gweithredu ymlaen ledled Cymru.

Rwyf eisiau parhau i ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth ac rwyf wedi ymrwymo i gomisiynu ymchwil yn 2012 i archwilio'r rheini sy'n cyflawni troseddau casineb a'u cymhellion. Rwyf hefyd eisiau cefnogi'r angen i dreialu a gwerthuso effaith datblygu Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth ar gyfer aflonyddu ar sail anabledd drwy gyfrwng Grŵp Amrywiaeth Cymru gyfan yr Heddlu. Mae hwn yn gam pwysig i fynd i'r afael ag aflonyddu ar sail anabledd ac i ddiogelu dioddefwyr sydd mewn perygl sylweddol drwy weithio'n well mewn partneriaeth.

Rwyf hefyd yn credu y ceir cyfle ardderchog dan y Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol newydd, y cânt eu sefydlu erbyn 1af Ebrill 2012, i weithio'n agos gyda sefydliadau sector cyhoeddus i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â throseddau casineb ledled Cymru ac ymateb iddynt.

Rwy'n credu'n gryf bod gennym yr ymrwymiad clir a'r egni ar draws ystod o bartneriaid a sefydliadau ledled Cymru i gael effaith wirioneddol i fynd i'r afael â throseddau casineb. Rwyf am weld pob un ohonom yn cymryd yr awenau i ddatblygu blaenraglen arloesol a fydd yn cael effaith barhaol ar fywydau pobl ledled Cymru.

**Mae Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad i'w gweld isod:**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y:

1. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith aflonyddu ar sail anabledd, gan ddwyn ynghyd yr holl waith presennol sy'n digwydd yng Nghymru a gosod cyfeiriad strategol. Dylid datblygu hyn gan ddefnyddio'r Grŵp Gweithredu ar Droseddau Casineb Anabledd fel grŵp llywio.

**Ymateb : Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen fframwaith gweithredu a gaiff ei sefydlu erbyn diwedd 2012.


Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith gweithredu a fydd yn cwmpasu troseddau casineb o bob math, gan gynnwys aflonyddu ar sail anabledd, hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywedd. Caiff hwn ei ddatblygu drwy gyfrwng Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawsadrannol Llywodraeth Cymru, a fydd hefyd yn cynnwys partneriaid i ddatblygu a bwrw ymlaen fframwaith ar gyfer Cymru.

Mae angen datblygu fframwaith cyffredinol a fydd yn ceisio nodi meysydd ymarfer a pholisi allweddol er mwyn canfod y blaenoriaethau cyfredol ac i'r dyfodol i fynd i'r afael â throseddau casineb. Bydd hyn yn ychwanegu at y dystiolaeth sy'n awr yn dod i'r golwg a'r dystiolaeth gyfredol sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys tystiolaeth o ganfyddiadau'r Pwyllgor, ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu ar sail anabledd a phrosiect Troseddau Casineb Cymru Gyfan.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn comisiynu gwaith pellach, a gaiff ei gynnal yn ystod 2012, i archwilio cymhellion y rheini sy'n cyflawni troseddau casineb a chaiff y canfyddiadau hyn eu bwydo i'r fframwaith. Mae'n hanfodol y bydd y fframwaith yn cynnwys ymgynghori a chyfathrebu effeithiol, gyda'r rhanddeiliaid ledled Cymru, wrth ei ddatblygu.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau cefnogi datblygu'r fframwaith drwy sefydlu grwpiau cyflenwi ar hyd pob un o'r elfennau er mwyn cynhyrchu cynlluniau gweithredu y gellir eu cyflawni. Ceir hefyd gynrychiolaeth o grwpiau gweithredu ar y prif Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Ymysg gwaith fy swyddogion y bydd edrych ar ymhle y mae fforymau eisoes yn gweithredu ac a oes ganddynt y gallu a'r ddealltwriaeth berthnasol i weithredu fel grŵp gweithredu effeithiol. Er enghraifft, gallai'r Grŵp Gweithredu ar Droseddau Casineb Anabledd gymryd yr awenau i gyflawni ar yr elfen gysylltiedig hon.

Bydd fy swyddogion yn llunio strwythur gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i fwrw ymlaen (fel yr amlygir isod):




**Goblygiadau Ariannol** – Bydd y swyddogion yn mesur y rhain, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â datblygu digwyddiadau ymgynghori a gallu grwpiau gweithredu i gyflenwi'r cynlluniau a nodir.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y:

2. Dylai'r cynllun hwn nodi atebolrwydd ar draws portffolios Gweinidogion ac annog gweithio mewn partneriaethau rhwng adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd, sefydliadau gwirfoddol ac asiantaethau perthnasol eraill fel yr heddlu.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ymgynghori yn rhan o'r broses o ddatblygu'r fframwaith gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol fel ei gilydd.

Mae'r ymrwymiad i fynd i'r afael â throseddau casineb yn amlwg yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn y meysydd posibl sy'n dod i'r amlwg ar gyfer amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru sy'n rhoi arwydd clir o'r angen i fwrw gwaith ymlaen ledled Cymru.

Ceir cynrychiolaeth ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r meysydd polisi perthnasol. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu'r fframwaith gweithredu a sicrhau atebolrwydd ar draws portffolios Gweinidogion, a gellir wedyn bwydo hyn i'r rhanddeiliaid. Yna bydd angen i'r cyfeiriad polisi a'r camau gweithredu perthnasol gael eu gwneud yn rhan annatod o'r fframwaith ar draws ystod lawn y meysydd polisi.

Mae fy swyddogion eisoes wedi meithrin cyswllt gydag arweinyddion adrannol polisïau allweddol a cheir eisoes dystiolaeth o waith cysylltiedig â throseddau casineb. Mae hyn yn cynnwys canllawiau wedi'u llunio ar gyfer bwlio ar draws y nodweddion gwarchodedig, cydlyniant cymunedol i ysgolion ac addysg uwch/ bellach a'r Pecyn Cymorth Troseddau Casineb ar gyfer Tai. Mae angen adeiladu ar y gwaith hwn a'i fwrw ymlaen ledled Cymru.

Mae gwella cysylltiadau ar draws y partneriaid yn hanfodol i gyflenwi'r camau gweithredu a nodir drwy'r fframwaith. Caiff y perthnasoedd hyn eu hamlygu drwy gyfrwng grwpiau gweithredu penodol o fewn y dull elfen-gysylltiedig, a

fydd yn cynnwys sefydliadau perthnasol ledled Cymru. Bydd hyn yn annog archwilio camau gweithredu o safbwynt gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd a gwaith i'r dyfodol.

Bydd yn bwysig cysylltu â rhanddeiliaid mewn meysydd polisi penodol wrth ddatblygu'r fframwaith. Bydd hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r arferion a'r dulliau sy'n dod i'r amlwg ac mae angen adeiladu ar yr arferion a'r dirwedd bresennol. Yna bydd angen bwydo'r arbenigedd perthnasol i'r dulliau newydd hyn.

Cynhelir nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ledled Cymru yn ystod camau datblygu'r fframwaith. Bydd hyn yn sicrhau bod y cwmpas a'r nodau'n cael eu gosod yn eu cyd-destun a'i fod yn gallu adlewyrchu gwaith y presennol a'r dyfodol ledled Cymru ac yn bod yn ymatebol iddo.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd y swyddogion yn mesur y rhain, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â meithrin gallu a chynnal digwyddiadau ymgynghori ledled Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y:

3. Dylai'r fframwaith gynnwys darpariaeth ar gyfer hyfforddi staff rheng flaen mewn awdurdodau cyhoeddus.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid drwy gyfrwng y fframwaith i archwilio hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen.

Mae hyfforddi staff rheng flaen yn agwedd hanfodol er mwyn cynyddu cyfraddau adrodd, gan gynnwys drwy gyfrwng trydydd partïon. Bydd y fframwaith yn pwyso a mesur y peirianweithiau mwyaf effeithiol a bydd hefyd yn archwilio esiamplau o'r arferion presennol.

Bydd datblygu Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru hefyd yn galluogi awdurdodau sector cyhoeddus i bwysleisio'r angen i gynyddu'r gwaith ar droseddau casineb a'r ddealltwriaeth amdanynt. Mae'n bwysig bod staff rheng flaen yn gallu bod yn gwbl ymwybodol o beirianweithiau adrodd am droseddau casineb ac y gallant ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau a chynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

Bydd y fframwaith yn pwyso a mesur yr angen i ddatblygu canllawiau penodol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau eraill ledled Cymru. Er mwyn cael dealltwriaeth a chanllawiau cyffredin sy'n gyson ac sydd wedi'i sefydlu'n effeithiol.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd y swyddogion yn mesur y rhain, a gellid bod goblygiadau o ran costau i ddatblygu canllawiau i staff rheng flaen.

Mae’r Pwyllgor yn argymell y:

4. Dylai Llywodraeth Cymru dreialu’r defnydd o gynadleddau asesu risg aml-asiantaeth ar gyfer achosion o aflonyddu ar sail anabledd, gan ddefnyddio’r model o gam-drin domestig fel arfer da.

**Ymateb : Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda’i phartneriaid i fesur ymarferoldeb datblygu Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth beilot ar gyfer aflonyddu ar sail anabledd.

Bydd Grŵp Amrywiaeth Cymru gyfan yr Heddlu yn bwrw ymlaen is-grŵp i ganolbwyntio ar ddatblygu Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth beilot yng Nghymru i ganolbwyntio ar aflonyddu ar sail anabledd. Bydd hon yn cynnwys cynrychiolaeth ar draws ardaloedd y pedwar heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Llywodraeth Cymru a sefydliadau allweddol ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r dull hwn a bydd yn helpu i fesur ymarferoldeb gweithredu model peilot.

Mae angen archwilio’r arferion sy’n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, lle mae Heddlu Gwent, er enghraifft, ar fin dechrau treialu proses asesu risg troseddau casineb ac mae Cyngor Wrecsam wedi gwneud gwaith aml asiantaeth anffurfiol ar droseddau casineb. Bydd y model cam-drin domestig yn darparu glasbrint clir o ran sut y gall y model Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth weithredu’n llwyddiannus ac mae’n canolbwyntio ar yr angen i rannu gwybodaeth ar draws asiantaethau. Mae angen cynnwys y ddealltwriaeth a’r arbenigedd blaenorol hyn wrth ddatblygu’r model hwn.

Mae’n bwysig bod gwerthusiad o unrhyw Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth i’r dyfodol yn cael ei gynnwys mewn unrhyw gynnydd i’r dyfodol er mwyn adolygu’r potensial i gyflwyno hyn ledled Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd y swyddogion yn mesur y rhain, a gellid bod goblygiadau o ran costau i ddatblygu’r model cychwynnol.

Mae’r Pwyllgor yn argymell y:

5. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro faint o awdurdodau cyhoeddus sydd wedi mabwysiadu aflonyddu ar sail anabledd fel amcan cydraddoldeb o dan y dyletswyddau cydraddoldeb penodol. Dylai’r amcanion hyn gael eu gwerthuso yn ôl yr hyn a gyflawnir a dylid rhannu arfer da.

**Ymateb : Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) i fesur yn gyntaf ba amcanion y mae sefydliadau ledled Cymru wedi'u gosod. Mae'r EHRC wedi ysgrifennu at sefydliadau sector cyhoeddus ar draws Cymru yn ddiweddar i gydgasglu'r wybodaeth hon. Yna gellir mynd ati i fapio'r amcanion a osodwyd ar gyfer mynd i'r afael â throseddau casineb ac aflonyddu ar sail anabledd.

Drwy ddatblygu'r fframwaith hwn, bydd wedyn yn bwysig ymgysylltu gyda sefydliadau sector cyhoeddus lle gosodwyd amcanion troseddau casineb, er mwyn gallu mesur a rhannu'r arferion da. Bydd y fframwaith wedyn yn ceisio amlygu esiamplau o arferion da a bydd hyn hefyd yn cynorthwyo awdurdodau sector cyhoeddus i gyflenwi canlyniadau drwy'r amcanion.

Bydd yr EHRC yn un o'r partneriaid allweddol i werthuso canlyniadau i'r dyfodol a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel arweinydd i ddylanwadu ar yr arferion da ledled Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y:

6. Dylai'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb drafod gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sut y bydd hawliau dynol yn cael eu cynnwys yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol arfaethedig, a rhoi nodyn i'r Pwyllgor am ganlyniad y cyfarfod hwnnw.

**Ymateb : Derbyn**

Byddaf yn cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn fuan.

Caiff cyfarfod ei drefnu'n fuan i drafod sut y gall hawliau dynol gael eu cynnwys yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol arfaethedig a byddaf yn rhoi nodyn am y canlyniad o'r cyfarfod i'r pwyllgor.

Rwy'n ymwybodol bod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar i drafod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol ac rwy'n bwriadu defnyddio'r trafodaethau fel sail i adeiladu arnynt. Bydd fy swyddogion yn gweithio'n agos ar draws portffolios pan ddatblygir y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol i'r dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim cost.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y:

7. Dylai fframwaith Llywodraeth Cymru safoni a chydlynu canolfannau adrodd trydydd parti er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth a bod canolfannau ar gael ledled Cymru.

**Ymateb : Derbyn**

Rwy'n gwbl ymwybodol bod prosiectau cyfredol wedi sefydlu canolfannau adrodd trydydd parti, megis y prosiect peilot yn Nhorfaen. Mae'n bwysig bod modd mapio a gwerthuso'r arferion presennol er mwyn asesu'r cryfderau a'r gwendidau posibl ac yna datblygu esiamplau o arferion ledled Cymru.

Bydd y dull hwn yn ffurfio rhan allweddol o'r fframwaith a bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r Grŵp Gweithredu ar Droseddau Casineb Anabledd i asesu'r arfer presennol. Bydd y fframwaith wedyn yn cynnwys esiamplau o weithio llwyddiannus drwy gyfrwng canolfannau adrodd trydydd parti gan ddylanwadu ar gysondeb ledled Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim cost.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y:

8. Dylai'r fframwaith annog y defnydd o adnoddau presennol i godi ymwybyddiaeth o aflonyddu ar sail anabledd ymysg pobl anabl.

**Ymateb : Derbyn**

Caiff hwn ei fwrw ymlaen ar y cyd yn ystod datblygu'r fframwaith Troseddau Casineb a'r fframwaith Byw'n Annibynnol yng Nghymru.

Drwy ddatblygu cynlluniau a grwpiau gweithredu fesul elfen o fewn y fframwaith, ceir ffocws allweddol i werthuso'r hyn y gall sefydliadau ledled Cymru ei gyflawni i annog defnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes i gynyddu ymwybyddiaeth o aflonyddu ar sail anabledd. Caiff hwn ei gynnwys fel rhan o'r flaenraglen a bydd gan y Grŵp Gweithredu ar Droseddau Casineb Anabledd ran bwysig i'w chwarae i weithio gyda phobl anabl i gynyddu ymwybyddiaeth.

Mae'n hanfodol bwydo i mewn safbwyntiau gan bobl anabl wrth ddatblygu'r fframwaith a'r cynllun gweithredu, a bydd hyn yn sicrhau bod angen cynyddu ymwybyddiaeth a chanfod sut y gellir goresgyn rhwystrau. Bydd hyn yn cyplysu'r gadarn gyda datblygu'r Fframwaith Byw'n Annibynnol yng Nghymru. Mae'n glir bod troseddau casineb yn gallu bod yn rhwystr sylweddol i bobl anabl rhag cymryd rhan mewn bywyd cymunedol a bod angen cryfhau'r gwaith a'r ddealltwriaeth ledled Cymru.

Bydd hefyd angen bwrw'r gwaith hwn ymlaen ar draws portffolios Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng y fframwaith, lle gall darparwyr tai a chludiant cyhoeddus

er enghraifft fod â rôl allweddol i'w chwarae i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Y bwriad yw defnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes ar gyfer yr argymhelliad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y:

9. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ac asiantaethau perthnasol ar rannu data ac, yn benodol, ar sut y gall awdurdodau adnabod patrymau o aflonyddu ar lefel is cyn i'r achosion ddatblygu'n droseddau casineb.

**Ymateb : Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid ledled Cymru i adnabod yr hyn sy'n rhwystro rhannu data.

Mae'r angen i rannu gwybodaeth yn rhwystr sylweddol i sicrhau y gellir gweithio'n gydgysylltiedig drwy bartneriaeth er mwyn lleihau lefelau throseddau casineb. Bydd hyn yn cynnwys archwilio patrymau o aflonyddu ar lefel is i sicrhau y gellir sefydlu gwaith ataliol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn fuan. Caiff hyn ei archwilio fel rhan o broses datblygu'r Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth beilot gyda heddluoedd ledled Cymru ac mae'n bwysig canfod i ddechrau lle ceir problemau ynghylch rhannu data.

Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn gweithio ar draws portffolios i archwilio sut y gellir goresgyn y rhwystrau a bydd wedyn yn canfod ac yn asesu'r angen i sefydlu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ac asiantaethau perthnasol. Bydd hyn yn ffurfio rhan allweddol o'r fframwaith a bydd yn bwysig gweithio gyda'r partneriaid ledled Cymru i ddynodi systemau effeithiol yn glir.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd y swyddogion yn mesur y rhain, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â datblygu canllawiau.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y:

10. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys amcan tymor hir yn y Cynllun Cydraddoldeb Sengl newydd o 2012 i newid agweddau diwylliannol at bobl anabl yng Nghymru.

**Ymateb : Derbyn**

Caiff y gwaith hwn ei fwrw ymlaen drwy gyfrwng y fframwaith, yr amcanion cydraddoldeb penodol ac fel rhan o'r rhaglen cydlyniant cymunedol sy'n parhau.

Amcanion a chynllun Cydraddoldeb Strategol Cymru fydd yn disodli'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn yr hirdymor o 2012 ymlaen. Mae'r meysydd posibl sy'n dod i'r amlwg ar gyfer amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnwys troseddau casineb i fwrw'r gwaith ymlaen.

Mae'r angen i newid agweddau diwylliannol at bobl anabl yng Nghymru yn fater pwysig. Rwyf yn ymwybodol o ymgyrch deisebau diweddar gan MENCAP Cymru i fynd i'r afael â throseddau casineb ar sail anabledd dysgu ac rwy'n llwyr gydnabod ac yn cefnogi'r angen i ddatblygu dulliau effeithiol. Ceir hefyd gysylltiadau cadarn gyda'r Fframwaith Byw'n Annibynnol i fynd i'r afael ag agweddau negyddol.

Drwy gyfrwng y rhaglen cydlyniant cymunedol ceir un canlyniad i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth. Rwyf wedi cyhoeddi cyllid yn ddiweddar ar gyfer Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol ledled Cymru yn ystod 2012. Un o rannau allweddol y rôl hon fydd nodi'r gwaith a'r arferion presennol sy'n mynd rhagddynt ym mhob rhanbarth a cheisio dylanwadu'n effeithiol ar bartneriaid i bwyso a mesur yr ymarfer, gan gynnwys drwy gyfrwng hyfforddiant.

Bydd gan ysgolion hefyd ran allweddol i'w chwarae i helpu i newid agweddau diwylliannol ac rwy'n falch bod Pecynnau Cymorth wedi'u datblygu'n ddiweddar drwy ganllawiau gwrth-fwlio gydag adran benodol ar aflonyddu ar sail anabledd. Rwy'n falch bod troseddau casineb a bwlio wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol gyda'i gilydd ac mae'n bwysig datblygu blaenraglen a fydd yn gallu cael effaith barhaol ar agweddau.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Gellir tynnu'r arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.